**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR IAITH

# LANGUAGE COMMITTEE

**10.30AM, DYDD IAU, 27 MEHEFIN, 2013**

**10.30AM, THURSDAY, 27 JUNE, 2013**

Lleoliad / Location

***SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON**

*Nodwch y lleoliad ogydd / *Please note venue

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**EIRIAN ROBERTS**

**(01286) 679018**

maireirianroberts@gwynedd.gov.uk

*(DOSBARTHWYD / DISTRIBUTED 20/06/13)*

# PWYLLGOR IAITH
# LANGUAGE COMMITTEE

## AELODAETH/MEMBERSHIP (15)

### Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr/Councillors

| | |
|---|---|
| Craig ab Iago | Liz Saville Roberts |
| Elwyn Edwards | Mair Rowlands |
| Alan Jones Evans | Gareth Thomas |
| Dyfrig Jones | Mandy Williams-Davies |

### Annibynnol/Independent (4)

Y Cynghorwyr/Councillors

| | |
|---|---|
| Tom Ellis | Eirwyn Williams |
| Eric M.Jones | Elfed Williams |

### Llais Gwynedd (3)

Y Cynghorwyr/Councillors

| | |
|---|---|
| Gweno Glyn | Gruffydd Williams |
| Alwyn Gruffydd | |

### Aelodau Ex-officio/Ex-officio Members

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor / Council Chairman and Vice-chairman

# RHAGLEN

**1. CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd am 2013/14.

**2. IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-gadeirydd am 2013/14.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**6. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 16 Ebrill, 2013 fel rhai cywir (copi yma – papur eog).

**7. ADRODDIAD MONITRO Y CYNLLUN IAITH GYMRAEG 2012-13**

Ystyried adroddiad y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith (copi yma – papur melyn)

**8. CYNLLUN IAITH GYMRAEG CYNGOR GWYNEDD**

Ystyried adroddiad y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith (copi yma – papur glas)

**9. RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR IAITH**

Ystyried adroddiad y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith (copi yma – papur gwyrdd)

**10. CWYNION IAITH**

Ystyried adroddiad y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith (copi yma – papur lelog)

# PWYLLGOR IAITH, 16.04.13

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Liz Saville Roberts (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Gweno Glyn (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Craig ab Iago, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Alwyn Gruffydd, Dyfrig Jones, Eric M.Jones, Gareth Thomas, Gruffydd Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams a Mandy Williams-Davies.

**Swyddogion:** Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dilys Phillips, (Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol – ar gyfer eitem 5 yn unig), Dewi R.Jones (Pennaeth Addysg), Sion Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith), Debbie Anne Jones, (Swyddog Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg), Gwenno Williams, (Uwch Reolwr Gweithredol, Keira Hendry, (Cymhorthydd Hamdden Penllyn, Bala) ac Ioan Hughes, (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Sylwedydd:** Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet – Gofal Cwsmer).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Mair Rowlands a Thomas G. Ellis.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 17 Ionawr, 2013 fel rhai cywir, yn ddarostyngedig i newid y gair 'gwaed' i gwae ar ddiwedd y trydydd pwynt o'r drafodaeth ar eitem 4 – 'Cyfrifiad 2011: Canlyniadau Cyntaf ar yr Iaith Gymraeg.

## 3. CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR

a) Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn cyfeirio at y rhaniad rhwng cyfrifoldebau'r Cyngor llawn a'r Cabinet o safbwynt materion iaith.

Esboniwyd bod y drefn Gabinet yn golygu fod goruchwylio gweithrediad Cynllun Iaith Cyngor Gwynedd yn rhan o swyddogaeth y Cyngor a'i fod wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor hwn. Mae'r gwaith o greu strategaeth a hyrwyddo'r iaith yn perthyn i'r Aelod Cabinet Gofal Cwsmer.

Pan sefydlwyd y Pwyllgor Iaith flwyddyn yn ôl mabwysiadwyd cylch gorchwyl ar ei gyfer gan y Cyngor. Fodd bynnag, ceir cyfle i'w adolygu yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 2 Mai, 2013.

Fel newid posib, argymhellwyd y gallai'r Pwyllgor Iaith weithredu fel corff ymgynghorol ar strategaethau hyrwyddo'r iaith Gymraeg o fewn y Sir gan wneud argymhellion i'r Cabinet yn ôl yr angen.

Ynghlwm â'i bwerau a'i gylch gorchwyl, nodwyd y dylai'r Pwyllgor Iaith ystyried ei raglen waith am y flwyddyn i ddod.

b) Pwysleisiodd aelod fod yr iaith Gymraeg yn fater creiddiol i'r Cyngor, a theimlai na allai'r Pwyllgor hwn weithredu i warchod yr iaith ac atal dirywiad pellach pe byddai'r argymhellion yn cael eu derbyn.

Ychwanegodd fod myrdd o bethau eisoes yn rhan o ddyletswyddau'r adran Gofal Cwsmer ac na fyddai'n rhesymol ychwanegu'r iaith Gymraeg at gyfrifoldebau'r Adran.

c) Mewn ymateb, esboniodd y Swyddog Monitro na fyddai materion iaith yn cael eu trosglwyddo i'r Adran Gofal Cwsmer. Yn hytrach, byddai'r newid a awgrymwyd yn golygu y byddai cylch gorchwyl y Pwyllgor Iaith yn cryfhau trwy weithredu fel corff ymgynghorol gan wneud argymhellion i'r Cabinet.

Yn ystod trafodaeth bellach, amlygwyd y prif bwyntiau a ganlyn:-

- Byddai angen trafod sut y gellid cyflawni'r dasg ychwanegol pe byddai'r argymhelliad yn cael ei dderbyn;
- Bod cyfle i gryfhau rôl y Pwyllgor Iaith i hybu datblygiad yr iaith Gymraeg;
- Gallai argymhellion a syniadau'r Pwyllgor gael eu diystyru gan yr Aelod Cabinet;
- Dylid rhoi cyfle i'r drefn o weithredu fel corff ymgynghorol ar strategaethau hyrwyddo'r iaith Gymraeg yng Ngwynedd;

ch) Cynigiwyd gwelliant yn nodi y dylai'r Pwyllgor Iaith weithredu fel corff ymgynghorol ar strategaethau hyrwyddo'r iaith Gymraeg yng Ngwynedd, ond ei fod yn gwneud argymhellion i'r Cyngor llawn yn hytrach na'r Cabinet.

d) Esboniodd y swyddog Monitro mai mater o gyfraith oedd dan sylw. Byddai'r gwelliant felly yn anghyfansoddiadol.

dd) Mewn ymateb, nododd y cynigydd bod angen herio'r ddeddf ar adegau. Ond ar bleidlais fwrw'r Cadeirydd, disgynnodd y gwelliant.

**PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor hwn yn:**
**a) argymell i'r Cyngor llawn ar 2 Mai y dylid ychwanegu'r cymal canlynol at gylch gorchwyl y Pwyllgor :-**
**'*Gweithredu fel corff ymgynghorol ar strategaethau hyrwyddo'r iaith Gymraeg o fewn y Sir gan wneud argymhellion i'r Cabinet yn ôl yr angen.'***

**b) ystyried ei raglen waith am y flwyddyn i ddod yng ngoleuni ei bwerau a'i gylch gorchwyl;**

**c) ysgrifennu at y person priodol yn Llywodraeth y Cynulliad i ofyn am newidiadau gael eu cyflwyno i'r ddeddf mewn perthynas â throsglwyddo holl gyfrifoldebau am faterion iaith o'r Cabinet i'r Cyngor.**

**4. ADRODDIAD LLWYDDIANT PROSIECT PENCAMPWYR IAITH CANOLFANNAU HAMDDEN GWYNEDD**

Cyflwynwyd – adroddiad yr Uwch Reolwr Gweithredol, ac yn bresennol yn y cyfarfod hefyd 'roedd Keira Hendry, un o'r Pencampwyr Iaith sy'n gweithio fel cymhorthydd hamdden yng Nghanolfan Hamdden Penllyn, Bala.

Nodwyd bod hyfforddiant wedi ei ddarparu ar gyfer 13 o Bencampwyr Iaith Canolfannau Hamdden Gwynedd fel rhan o'r Cynllun Gweithleoedd Dwyieithog.

Ymhelaethodd gan dynnu sylw penodol at y materion canlynol:-

- Swyddogaeth graidd y Pencampwyr Iaith;
- Manteision Swyddogaeth Pencampwyr Iaith i'r Gweithlu;
- Manteision Swyddogaeth Pencampwyr iaith i'r Cyngor;
- Y Camau Mae'r Uned Weithredol Wedi ei Gymryd.

Ychwanegwyd bod gwaith a wneir drwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan o weithgareddau'r canolfannau hamdden yn cynyddu'n gyson. Mae anfon negeseuon e-bost Cymraeg yn enghraifft amlwg o hyn.

Yn sgil hyn, nododd y cymhorthydd hamdden fod gweithwyr yn barod i ymdrechu i ymdrin â thasgau newydd o'r fath, a chredai ei bod yn hanfodol i hyfforddwyr yn y canolfannau fod yn gallu siarad Cymraeg gan nad yw'r holl blant yn dallt Saesneg.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y prif bwyntiau a ganlyn:-

- Bod y gwelliant a welwyd yng Nghanolfan Penllyn i'w groesawu a bod lle i longyfarch y gweithlu;
- Bod anawsterau'n parhau i fodoli mewn perthynas â chanolfannau hamdden Bangor, Dolgellau a Thywyn;
- Dylid ystyried gosod amod a chael cyfnod prawf mewn perthynas â dysgu Cymraeg, wrth wneud penodiadau, a bod lle i'r Pwyllgor hwn fonitro'r datblygiad;
- Yn sgil llwyddiant gyda'r canolfannau hamdden, gellid targedu adrannau eraill o fewn y Cyngor;
- Bod anawsterau ar adegau wrth hyfforddi oedolion mewn dosbarthiadau ffitrwydd, ond bod ymdrechion yn cael eu gwneud.

Llongyfarchwyd Keira Hendry ar ei llwyddiant yn dysgu Cymraeg a chyfeiriodd aelod at ei gallu i ymdrin â rhifau wrth ddefnyddio'r iaith.

Cyfeiriwyd yn benodol at weithgareddau pêl-droed a gyflwynir gan 'Kickit', a mynegwyd pryder ynglŷn â'u methiant i ddefnyddio'r Gymraeg.
Eglurwyd mai ysgolion, yn hytrach na chanolfannau hamdden, a ddefnyddir ar gyfer y gweithgaredd ac nad y Cyngor sy'n uniongyrchol gyfrifol amdano.
Cytunwyd y dylid ystyried cael contractau gydag amodau pendant o ran defnyddio'r Gymraeg pan mae rhai o'r tu allan yn defnyddio asedau'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD:**
**a) Nodi cynnwys yr adroddiad.**
**b) Bod gwybodaeth bellach yn cael ei gyflwyno mewn perthynas â'r defnydd o'r iaith Gymraeg yng nghanolfannau hamdden Bangor, Dolgellau a Thywyn.**
**c) Bod y materion canlynol yn cael eu cynnwys o fewn rhaglen o waith y Pwyllgor hwn:**
**i) rhoi ystyriaeth i'r hawliau ynglŷn â gosod amodau o fewn contractau neu annog rhai o'r tu allan i ddefnyddio'r iaith Gymraeg pan ddefnyddir asedau'r Cyngor ganddynt;**
**ii) ystyried hawliau ynglŷn â gosod amodau ynglŷn â dysgu'r Gymraeg a chael cyfnod prawf pan wneir penodiadau;**
**iii) edrych ar adrannau eraill o fewn y Cyngor yn eu tro, mewn perthynas â'r defnydd o'r iaith Gymraeg, yn dilyn llwyddiant cynllun y Pencampwyr Iaith yn y canolfannau hamdden.**

## 5. CYFRIFIAD 2011: SEMINAR SEFYLLFA'R GYMRAEG YNG NGWYNEDD

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith gan swyddog Hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Cyfeiriwyd at seminar a gynhaliwyd ar 20 Mawrth, 2013 ar gyfer trafod ymateb canlyniadau Cyfrifiad 2011 ar lefel leol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg.
Eglurwyd bod y seminar wedi creu cyfle i gynnal trafodaethau ar gyfer Arfon, Dwyfor a Meirionnydd. Yn sgil y trafodaethau gwelwyd fod y themâu canlynol yn dod i'r amlwg yn y 3 ardal:-

- Defnydd o'r iaith a'r hyder i'w defnyddio;
- Patrymau mudo ac allfudo;
- Rôl ysgolion ac addysg i hyrwyddo'r iaith;
- Materion tai a chynllunio;
- Codi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg;
- Dylanwadu ar gyrff eraill.

O safbwynt y camau nesaf i'w cymryd, pwysleisiwyd yr angen i ddadansoddi'r wybodaeth o'r Cyfrifiad sy'n cael ei ryddhau'n gyson, a nodwyd bod yr aelodau'n rhan greiddiol o'r broses yma. Nodwyd hefyd bod gan yr aelodau rôl allweddol i'w chwarae o fewn eu wardiau fel hyrwyddwyr yr iaith Gymraeg.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y prif bwyntiau a ganlyn:-

- Bod y Gymraeg yn hanfodol ym mhob ysgol yng Nghymru;
- Bod rhai ysgolion yng Ngwynedd yn defnyddio'r Saesneg er mwyn denu disgyblion, ac nad ydynt felly yn gweithredu yn unol â pholisi'r Cyngor;
- Bod modd i aelodau fynd o ddrws i ddrws yn eu wardiau er mwyn casglu gwybodaeth ynglŷn ag anghenion ym maes tai yn lleol;
- Bod y 'dreth llofftydd' yn achos pryder oherwydd bod rhai o'r tai mwyaf yn cael eu gadael yn wag a rhai o'r tu allan yn dod i fyw ynddynt;
- Bod Amod Gyfreithiol 106 a osodir ynghlwm â hawliau cynllunio yn creu trafferthion i lawer mewn perthynas â chael morgais;
- Nad oes gan y Cyngor gynllun i gynhorthwy rhai sy'n dymuno adeiladu tai eu hunain.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Iwan Trefor Jones, bod Cynllun Datblygu Unedol y Cyngor yn fater canolog i'w ystyried gan ei fod yn gysylltiedig ag anghenion tai, cynllun ieithyddol a llunio datblygiadau ar gyfer y dyfodol.
Nodwyd y pwysigrwydd o gadw cyswllt hefo'r Cynllun ac y dylid cynnwys hyn o fewn rhaglen waith y Pwyllgor hwn.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth gan nodi'r angen i barhau gyda'r trafodaethau ar raddfa leol a chytuno ar rôl ar gyfer y cynghorwyr.**

## 6. CWYNION IAITH

Cyflwynwyd - adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith gan y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith.
Cyfeiriwyd at gwynion a wnaed yn erbyn y Cyngor ac yn erbyn cyrff eraill yn ystod Ionawr, Chwefror a Mawrth 2013.

Mynegwyd anfodlonrwydd gan aelod oherwydd bod cyfeiriad yn cael ei wneud droeon at adrannau o fewn y Cyngor yn ymddiheuro neu fod angen aros am ymateb. Pwysleisiodd

nad oedd hyn yn ddigon da a nododd y dylid anfon neges at yr adrannau'n aml er mwyn sicrhau eu bod yn edrych ar y modd maent yn gweinyddu.
Cytunwyd y byddai'n fuddiol i'r Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith, ynghyd â'r Cadeirydd, ddarparu llythyr i'w anfon at holl adrannau'r Cyngor yn nodi'r pwysigrwydd o gydymffurfio â'r Polisi Iaith.

Awgrymodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Iwan Trefor Jones, y gellid cael dangosyddion perfformiad fyddai'n creu cyfle i'r Pwyllgor hwn gael tystiolaeth o'r hyn sy'n cael ei wneud er hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Nodwyd y gallai hyn fod yn rhan o raglen waith y Pwyllgor a chytunwyd y gellid ceryddu a chanmol yn ôl yr angen.

**PENDERFYNWYD :**
**a) Nodi cynnwys yr adroddiad.**
**b) Bod y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith, ynghyd â'r Cadeirydd, yn darparu llythyr i'w anfon at holl adrannau'r Cyngor yn nodi'r pwysigrwydd o gydymffurfio â'r Polisi Iaith.**
**c) Bod ystyriaeth yn cael ei roi i'r posibilrwydd o gael dangosyddion perfformiad, ar gyfer monitro ymdrechion adrannau'r Cyngor i gydymffurfio â'r Polisi Iaith.**

## 7. ADRODDIAD AR GYNNYDD DISGYBLION Y CANOLFANNAU IAITH

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Addysg.

Tywysodd y Pennaeth yr aelodau drwy'r adroddiad ac esboniodd mai nôd y Canolfannau Iaith yw darparu cwrs dwys yn y Gymraeg i fewnfudwyr er mwyn eu galluogi i ymdoddi i'r gymdeithas ddwyieithog a chyfranogi'n llawn o brofiadau addysg ddwyieithog.

Bellach mae pedair canolfan gynradd ac un ganolfan uwchradd yng Ngwynedd. Mae hyn yn gwbl unigryw yng Nghymru, ac ymhelaethodd y Pennaeth ar y llwyddiant a amlygir pan ddychwela'r disgyblion i'w hysgolion a'u cymunedau.

Nodwyd bod 1056 o ddisgyblion cynradd a 358 o ddisgyblion uwchradd wedi mynychu'r canolfannau rhwng 2005 a Hydref 2012. Cyfeiriwyd hefyd at y dilyniant priodol sy'n cael ei gynnig ac at y cysylltiad da sy'n bodoli rhwng yr ysgolion a'r canolfannau.
Ychwanegwyd bod y strategaeth ôl-ofal oedd yn bodoli yn y canolfannau cynradd, wedi ei ddatblygu yn ystod tymor yr Hydref 2009. Fe'i cyflwynwyd i benaethiaid yr ysgolion cynradd a bu'n weithredol ers tymor y Gwanwyn 2010.

Gwelwyd datblygiad arwyddocaol ym Medi 2012 pan benodwyd ail athrawes i swydd barhaol yn y Ganolfan Iaith Uwchradd. Yn sgil y penodiad gellir datblygu ymhellach weithrediad y rhaglenni ôl-ofal i'r disgyblion gan gynnig arweiniad i'r ysgolion uwchradd yn ôl yr angen. Oherwydd hyn, yn ogystal â'r ffaith mai am hanner tymor mae'r disgyblion yn mynychu'r Ganolfan Uwchradd, nododd y Pennaeth fod yr ôl-ofal ar gyfer disgyblion uwchradd yn llawer mwy miniog.

Ychwanegodd na ellir darparu ôl-ofal dwysach ar gyfer y disgyblion cynradd oherwydd diffyg adnoddau.

Cyflwynwyd gwybodaeth ynglŷn â chanran y disgyblion sy'n dilyn y Gymraeg fel iaith gyntaf ar ôl iddynt drosglwyddo i'r uwchradd (2010 – 2012). 'Roedd manylion y canolfannau ar gael yn unigol a chytunwyd eu bod yn galonogol iawn.
O safbwynt Canolfan Iaith Maesincla, cyflwynwyd y wybodaeth mewn dau ran gyda'r cyntaf yn gysylltiedig â'r plant nad ydynt yn mynd i Ysgol Friars, a'r ail yn gysylltiedig â'r plant sydd yn mynd i Ysgol Friars.

Cyfeiriodd y Pennaeth yn benodol at ddatblygiadau a fu'n ddiweddar mewn perthynas ag Ysgol Friars. Tynnodd sylw at y nodau a osodir fel rhan o'r rhaglen waith tair blynedd o fewn Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg 2013-2014 Cyngor Gwynedd gan danlinellu'r ddau ganlynol:-

- Sicrhau dilyniant yn y Gymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng dysgu o CA2 i CA3. (**100%** o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r uwchradd).
- Cryfhau'r gweithredu yn yr ardaloedd/sefydliadau/ysgolion lle mae data yn dangos yr angen.

Ynghlwm â hyn pwysleisiodd fod gan y cynghorwyr rôl arbennig a chyfeiriodd at waith pwysig a gychwynwyd yn Ysgol Friars gan y Cynghorydd Mair Rowlands wrth sefydlu is-banel iaith yno. Trefnwyd i'r is-banel gyfarfod am y tro cyntaf yr wythnos hon.

Nododd y Pennaeth Addysg fod y gwaith yma'n enghraifft o'r hyn y gall cynghorwyr ei wneud a'r modd y gallant fod yn rhan o'r cyswllt rhwng ysgolion a'r canolfannau iaith.

Ychwanegodd fod Estyn wedi cyfeirio at waith rhagorol y Canolfannau Iaith yn dilyn arolygiad diweddar.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, croesawyd y gwaith a wnaed mewn perthynas ag Ysgol Friars.

Nodwyd bod angen adnoddau ychwanegol fel y gellir dwysau'r rhaglen ôl-ofal sy'n bodoli yn y Canolfannau Cynradd. Awgrymwyd y gellid cael adroddiad cynnydd ar benodiad yr ail athrawes i'r Ganolfan Iaith Uwchradd. Ychwanegwyd y gallai'r wybodaeth fod o werth wrth geisio sicrhau adnoddau ar gyfer ôl-ofal y Canolfannau Cynradd.
Cytunwyd fod hwn yn faes y gellid ei gynnwys yn rhaglen waith y Pwyllgor Iaith.

**PENDERFYNWYD:**
**a) Derbyn yr adroddiad gan ddiolch i'r Pennaeth Addysg a'r gweithlu am y gwasanaeth.**
**b) Bod adroddiad cynnydd yn cael ei gyflwyno ymhen blwyddyn ar y gwaith yn sgil penodiad yr ail athrawes i'r Ganolfan Iaith Uwchradd.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.25pm.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD** | **Mehefin 27 2013** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Adroddiad Monitro y Cynllun Iaith Gymraeg 2012-13** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Derbyn a chymeradwyo'r Adroddiad cyn ei hanfon i Gomisiynydd y Gymraeg** |
| **AWDUR** | **Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith** |

## 1. CEFNDIR

Mae'n ofynnol i'r Cyngor adrodd yn flynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar ei Gynllun Iaith. Disgwylir y bydd y trefniadau adrodd yma'n newid maes o law yn sgil sefydlu'r drefn Safonau Iaith ond yn y cyfamser y cyfarwyddid yw i awdurdodau barhau gyda'u cynlluniau presennol ac i adrodd arnynt yn ôl yr arfer. Mae'r Adroddiad Monitro'n seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd gan staff ar draws holl Wasanaethau'r Cyngor.

## 2. YR ADRODDIAD

2.1. yr Adroddiad Monitro drafft ar gyfer 2012-13 i sylw'r Pwyllgor. Yn ogystal ag adrodd ar y dangosyddion a bennwyd gan Fwrdd yr iaith Gymraeg, mae'r Adroddiad hefyd yn amlinellu'r cynnydd ar brosiectau ieithyddol Gwasanaethau o fewn y Cyngor.

2.2.Ar ddiwedd yr Adroddiad, nodir esiamplau o ymarfer da dros y cyfnod, yn ogystal â meysydd sy'n flaenoriaeth neu le na wnaethpwyd cynnydd digonol dros y cyfnod monitro.

## 3. ARGYMHELLION

3.1.Gofynnir i'r Pwyllgor am unrhyw sylwadau ac i gymeradwyo'r Adroddiad cyn ei chyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg.

**Atodiad**

# CYNLLUN IAITH CYNGOR GWYNEDD
# ADRODDIAD MONITRO 2012-13 (drafft)

## 1. Rhagair

Mae'r cyfnod adrodd yma'n cychwyn ychydig ar ôl sefydlu rôl a swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, ac yn ystod y cyfnod, cafwyd cyswllt agos ac adeiladol rhwng y Cyngor a'r Comisiynydd ar sawl lefel:

- Ffurfiwyd grŵp tasg o aelodau'r Pwyllgor Iaith i lunio sylwadau ar y Safonau Iaith drafft yn ystod Gorffennaf 2013.
- Lluniwyd ymateb i sylwadau'r Comisiynydd a dilynwyd hyn gyda chyfarfod rhwng y swyddogion perthnasol o'r Cyngor a Swyddfa'r Comisiynydd.
- Bu cyswllt rhwng y Cyngor a Swyddfa'r Comisiynydd ynglŷn â chwynion iaith (yn gwynion yn erbyn y Cyngor ac yn gwynion gan y Cyngor ynglŷn â chyrff eraill.
- Gwahoddwyd Comisiynydd Y Gymraeg i gyfarfod o'r Pwyllgor Iaith ar Ionawr 15 2013 i roi cyflwyniad i'r rôl ac i ymateb i gwestiynau a sylwadau'r Pwyllgor.

Datblygiad sylweddol arall yn ystod y cyfnod oedd cyhoeddi data ieithyddol Cyfrifiad 2011. Mae'r wybodaeth yma o bwysigrwydd mawr i Gyngor Gwynedd o safbwynt sefydlu gwaelodlin ystadegol gadarn ar gyfer cynllunio ieithyddol strategol. Hyd yma, mae'r Cyngor wedi ymateb drwy:

- Waith dadansoddi manwl gan Uned Ymchwil a Gwybodaeth y Cyngor wrth i'r ffigyrau gael eu cyhoeddi.
- Cyflwyniad i'r Pwyllgor Iaith o'r canlyniadau cychwynnol ar Ionawr 15 2013.
- Seminar i Aelodau etholedig ar y canlyniadau ar lefel cenedlaethol, sirol a fesul ward etholiadol
- Seminar yn edrych ar Ddyfodol Cymunedau Cymraeg yng ngoleuni'r Cyfrifiad wedi'i threfnu gan Hunaniaith a'i noddi gan Llywodraeth Cymru

## 2. Cydymffurfio a'r Cynllun Iaith Gymraeg (yn erbyn targedau 2011-12)

D.S. Ni sonnir am amcanion sydd eisoes wedi'u cwblhau ac a nodir mewn Adroddiadau Monitro blaenorol

### A. Polisïau a Mentrau Newydd

| AMCAN | GWEITHRED | DIWEDDARIAD |
|---|---|---|
| A.1. Byddwn yn prif-ffrydio'r Gymraeg i bolisiau, mentrau a phenderfyniadau allweddol y Cyngor drwy gryfhau a chadarnhau ein trefniadau prif-ffrydio themau llorweddol | * Sicrhau fod Aelodau'n rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith gaiff polisïau a phenderfyniadau ar yr iaith Gymraeg | Yr Adran Democratiaeth a Chyfreithiol yn sefydlu trefn ar gyfer sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i unrhyw effaith ieithyddol all fod |

| | | |
|---|---|---|
| | | ynghlwm ag adroddiadau a gyflwynir i'r Cabinet (gweler 6A) isod) |

**B. Cyflwyno Gwasanaethau**

| AMCAN | GWEITHRED | DIWEDDARIAD |
|---|---|---|
| B.1. Bydd y Cyngor yn sicrhau ein bod yn cyfleu a monitro gofynion y Cynllun Iaith fel rhan anatod o gyflwyno gwasananethau gan eraill a bod y gofynion yma'n amod ar gyfer cytundeb, grant neu nawdd a ddyrennir gan y Cyngor | * Yn unol â DIG 1, adrodd ar y nifer a % o gyrff 3ydd parti a gafodd eu monitro ar sail cydymffurfiaieth ieithyddol, gan ystyried:<br>- Contractau Gofal Cymdeithasol<br>- Contractau sy'n darparu ar gyfer pobl ifanc<br>- Contractau ar gyfer darpariaeth cyn oed ysgol<br>* Adolygu ein canllawiau ieithyddol i staff ar osod cytundebau yn dilyn cyhoeddi Canllaw Caffael Bwrdd yr Iaith | Gweler 4A) isod<br><br>Y weithred wreiddiol wedi'i chyflawni, ond noder y comisiynwyd iaith Cyf i gynnal arolwg o drefniadau comisiynu Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â gofynion ieithyddol (gweler 4A) isod) |
| **AMCAN** | **GWEITHRED** | **DIWEDDARIAD** |
| | * Cytuno ar drefn monitro ac adrodd ar draws y Cyngor er mwyn cynyddu'r ystod o gytundebau a adroddir o fewn ein Adroddiad Blynyddol | Byddwn yn edrych ar argymhellion yr arolwg o drefniadau comisiynu Gwasanaethau Cymdeithasol fel man cychwyn edrych ar drefniadau Adrannau eraill |
| B.2. Sicrhau fod cytundebau cyd-ddarparu'n arwain at wasanaethau sy'n cyd-fynd a gofynion y Cynllun Iaith | * Sicrhau fod Cynlluniau Adran 33 yn rhoi sylw dyledus i ofynion ieithyddol a bod yr iaith Gymraeg yn cael sylw o fewn yr adolygiadau blynyddol | Trefniadau interim mewn lle rhwng Derwen (Gwasanaethau Arbenigol Plant) a'r Bwrdd Iechyd- i'w |

| | | |
|---|---|---|
| | | hadolygu yng ngoleuni'r Safonau Iaith |
| B.3. Sicrhau fod Gwasanaethau Ieuenctid yn hyrwyddo'r Iaith Gymraeg | * Yn unol â gofynion Bwrdd yr Iaith Gymraeg, adrodd yn flynyddol ar sut mae'r Gwasanaeth yn darparu a hyrwyddo gwasanaethau a gweithgareddau Cymraeg | Gweler 3A) isod |

**C. Delio Gyda'r Cyhoedd sy'n Siarad Cymraeg a Safonau Ansawdd**

| AMCAN | GWEITHRED | DIWEDDARIAD |
|---|---|---|
| C.1. Bydd y Cyngor yn sicrhau a cheisio gwella yr amrediad o wasananethau o safon drwy gyfrwng y Gymraeg | * Monitro cydymffurfiaeth drwy adroddiadau'r Penaethiaid Gwasanaeth a chwynion iaith<br>* Cynnal hapwiriad annibynnol o gydymffurfiad y Cyngor a'r Cynllun Iaith | Gweler 3C) isod<br><br>Hapwiriad heb ei gynnal eto |
| **AMCAN** | **GWEITHRED** | **DIWEDDARIAD** |
| C.2. Sicrhau (yn unol â DIG2) fod staff y brif dderbynfa, canolfan gyswllt neu siop-un-stop yn gallu cynnig gwasananeth dwyieithog | ***** Parhau i sicrhau fod pob swydd yn ein prif dderbynfeydd a Galw Gwynedd wedi'u dynodi'n "Gymraeg hanfodol" ac ein bod yn penodi staff dwyieithog | Gweler 3B) isod |
| C.3. Gwarantu safon cyfieithu ac iaith y Cyngor | * Monitro ansawdd iaith unrhyw ddeunydd ysgrifenedig cyhoeddus sy'n cael ei gynhyrchu gan staff | Gweler Cwynion 3C) isod |
| C.4. Hyrwyddo'r iaith Gymraeg drwy Dechnoleg Gwybodaeth | Y Strategaeth Technoleg Gwybodaeth i gofnodi darpariaeth iaith Gymraeg fel dewis diofyn lle bo'n bosib ar bob cymhwysydd Windows sy'n bodoli'n ddwyieithog | Y penderfyniad wedi'i gadarnhau gan y Grŵp Llywodraethu TG ym mis Medi 2012 |

| | | |
|---|---|---|
| C.5. Sicrhau a hyrwyddo dewis iaith mewn cyfarfodydd | * Monitro gweithredu cyfarfodydd cyhoeddus | Gweler Cwynion 3C) isod |

**Ch. Wyneb Cyhoeddus y Cyngor**

| **AMCAN** | **GWEITHRED** | **DIWEDDARIAD** |
|---|---|---|
| CH.1. Cydymffurfio a'r gofyn i gyflwyno hunaniaieth gorfforaethol sy'n gwbl ddwyieithog ac sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg | * Sicrhau fod holl ddeunyddiau cyhoeddus y Cyngor yn ddwyieithog (arwyddion, papurau pennawd, ffurflenni, deunyddiau arddangos ayb.) | Gweler Cwynion 3C) isod |
| **AMCAN** | **GWEITHRED** | **DIWEDDARIAD** |
| CH.2. Sicrhau hyd eithaf ein gallu bod arwyddion ac enwau lleoedd o fewn y Sir yn adlewyrchu Cymreictod, hanes a diwylliant yr ardal | ***** Sicrhau fod holl arwyddion cyfeirio ac arwyddion ffordd yn cydymffurfio a gofynion ieithyddol y Cyngor<br>*Monitro a sicrhau cydymffurfiaeth a'r gofyn am enwau Cymraeg ar ddatblygiadau newydd<br>* Sicrhau fod llythyr yn cael ei anfon at y sawl sy'n gwneud cais i newid enw tŷ o'r Gymraeg yn gofyn iddynt ystyried eu cais yng nghyd-destun natur ieithyddol yr ardal | Gweler Cwynion 3C) isod<br><br>Cydymffurfio a'r gofyn<br><br>Cydymffurfio a'r gofyn |

**D. Gweithredu ac Arolygu'r Cynllun**

| **AMCAN** | **GWEITHRED** | **DIWEDDARIAD** |
|---|---|---|
| D.1. Datblygu Strategaeth Sgiliau ieithyddol i staff yn seiliedig ar ganllawiau Recriwtio a'r Iaith Gymraeg Bwrdd yr Iaith | * Gwella ein trefniadau monitro sgiliau ieithyddol staff yn unol â DIG 5 (fesul adran, gradd a gweithle) i bwrpas mapio capasiti ac adnabod y bwlch darparu<br><br>* Adolygu ein trefniadau parthed pennu sgiliau Iaith swyddi<br>*Sicrhau lefel iaith addas ar gyfer bob swydd yn unol â'r trefniadau a nodir uchod | Gweler 5B) isod)<br><br>Matrics lefel sgiliau iaith wedi'i chytuno. Byddwn yn gosod y lefelau newydd yn erbyn swyddi ac yn |

| | | |
|---|---|---|
| | * Asesu lefel sgiliau ieithyddol pob aelod o staff mewn cymhariaeth a lefel iaith y swydd<br>*Darparu hyfforddiant addas er mwyn datrys y gwahaniaethau rhwng lefel iaith swyddi a lefel sgiliau ieithyddol eu deiliaid | adnabod sgiliau iaith unigolion yn erbyn y fframwaith newydd |
| **AMCAN** | **GWEITHRED** | **DIWEDDARIAD** |
| D.2.Darparu hyfforddiant iaith Gymraeg i staff (DIG 4a) | Y Swyddog Datblygu Gweithlu yn trefnu a darparu gwersi gan adrodd yn flynyddol | Gweler adroddiad y Swyddog Datblygu Gweithlu 5A) isod |
| D.3. Sicrhau hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i staff (DIG4b) | * Hyrwyddo'r modiwlau e-ddysgu ar *Gydraddoldeb Iaith* a'r modiwl *Parch* (Eisoes fe'u clustnodwyd modiwlau cydraddoldeb ac iaith yn "hanfodol " i bob aelod o staff dan y Matrics Hyfforddiant Corfforaethol | Yr Uned Hyfforddiant yn broses o ddatblygu rhaglen e-ddysgu newydd |
| D.4. Sicrhau fod staff yn ymwybodol o ofynion y Cynllun Iaith ac yn hyrwyddo'r iaith gyda hyder | * Gosod y Cynllun Iaith ar system CETIS (rhaglen gyfrifiadurol i staff ddarllen a derbyn polisïau) | Gweler uchod- bydd hyn yn rhan o'r broses ddatblygu e-ddysgu |
| D.5. Sicrhau fod cwynion yn erbyn y Cynllun Iaith yn cael eu hymdrin â hwy yn unol â safonau corfforaethol y Cyngor | * Gwella'r trosolwg o gwynion drwy bwyso ar i Benaethiaid adrodd pob cwyn a'r ymateb i'w monitro gan y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith | Gweler 3C) isod |

## 3) Ansawdd Gwasanaethau Rheng Flaen

### A) <u>Darpariaeth Gwasanaeth Ieuenctid Cyfrwng Cymraeg</u>

*i)* *Gweithgareddau ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg gyda phobl ifanc*

Fel rhan o raglen waith HunanIaith, rhoddwyd sylw penodol i hyrwyddo'r iaith Gymraeg drwy'r Gwasanaeth Ieuenctid. Roedd y rhaglen ar gyfer 2012-13 yn adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd eisoes ac a adroddwyd yn Adroddiad Monitro 2011 ( h.y. arolwg o ba iaith a ddefnyddir yn y clybiau, sgiliau ieithyddol staff a hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i staff).

Lluniwyd cyfres o 5 o weithgareddau ar gyfer hyrwyddo'r iaith Gymraeg gyda phobl ifanc i ddarparwyr gwasanaethau ieuenctid:

**- Cwis** Mae'r cwis yn codi ymwybyddiaeth pobl ifanc mai siarad iaith leiafrifol a bod yn ddwyieithog neu amlieithog yw'r norm ledled y byd. Mae hefyd yn codi ymwybyddiaeth pobl ifanc o ddemograffig ieithyddol Cymru, Gwynedd a'r ward etholiadol leol, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth mai iaith a siaradir gan fwyaf gan bobl ifanc yw'r Gymraeg, gan geisio chwalu rhai mythau

**- Llinell Amser** Gweithgaredd ymarferol yw hwn sy'n gofyn i'r bobl ifanc osod cardiau yn nodi rhai o'r prif ddigwyddiadau yn hanes y Gymraeg, a chofnod o'r ganran o siaradwyr Cymraeg gyferbyn â'r dyddiadau priodol. Mae'r gweithgaredd yn codi ymwybyddiaeth pobl ifanc o'r digwyddiadau yma a'u heffaith pellgyrhaeddol ar feddylfryd siaradwyr Cymraeg dros y canrifoedd.

**- Llunio CV** Gweithgaredd ymarferol yw hwn eto lle bo'r bobl ifanc yn creu CV er mwyn ymgeisio am swydd ddychmygol tywysog / tywysoges Gwynedd. Wrth gasglu gwahanol gardiau sgil i lunio CV bersonol dylai'r bobl ifanc sylweddoli fod gallu cyfathrebu yn y Gymraeg neu fod yn ddwyieithog yn sgil bwysig ar gyfer cyflogaeth. Mae yn codi eu hymwybyddiaeth fod nifer fawr o gyflogwyr yn chwilio am weithwyr sydd â sgiliau dwyieithog.

**- Cwis Cerddorol** Cwis yw hwn lle bo'n rhaid i bobl ifanc benderfynu ai cân Gymraeg neu gân Saesneg yw'r gân a chwaraeir oddi ar CD yn seiliedig ar yr ychydig eiliadau o gyflwyniad offerynnol ar ddechrau'r gân yn unig. Mae'n ffordd o wneud i bobl ifanc sylweddoli y gall cerddoriaeth fod yn dda ac effeithiol waeth ym mha iaith bynnag y mae'r geiriau'n cael eu canu, gan geisio chwalu disgwyliadau rhai pobl ifanc fod cerddoriaeth Gymraeg mewn rhyw ffordd yn israddol i gerddoriaeth Saesneg.

**- Chwiliair** Mae'r chwiliair yn cynnwys termau a geiriau sydd wedi eu cynnwys ym mhob un o'r gweithgareddau eraill, ac yn cynnig cyfle i bobl ifanc gael trafod rhai ohonyn nhw eto mewn rhagor o fanylder.

Cyflwynwyd y Pecyn Gweithgareddau i Arweinyddion Clybiau Ieuenctid , Arweinyddion Ardal ac Uwch Swyddogion Ieuenctid y Sir. Roedd y cyflwyniadau'n cynnwys hyfforddiant ar ddefnyddio'r gweithgareddau.
Dosbarthwyd yn ogystal i Glybiau Ffermwyr Ifanc Eryri a Meirionnydd a'r Urdd yn rhanbarthau Eryri a Meirionnydd.
Pa dderbyniwyd adroddiad ar ddefnydd o'r adnoddau fel rhan o ddarpariaeth Gwasanaethau Ieuenctid y Sir ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, cafwyd cadarnhad i'r gweithgareddau gael eu defnyddio. Mae'r adnoddau yma yn parhau i fod ar gael mewn 19 o glybiau Arfon, 11 o glybiau Dwyfor a 17 o glybiau Meirionydd. Mae adnodd yn parhau i gael ei ddefnyddio ar y Bws Ieuenctid sydd yn teithio ar hyd Gwynedd I ardaloedd gwledig be does dim darpariaeth clybiau ieuenctid. Mae hefyd yn cael defnydd fel rhan o gwis y 3 rhanbarth a'r cwis sirol. Gyda phob un o'r sesiynau yma, dilynwyd proses arfarnu safonol y Gwasanaeth Ieuenctid.

Dengys yr adborth mai hoff weithgareddau'r bobl ifanc oedd y cwis a'r llinell amser, a bod y gweithgaredd llunio CV wedi gwneud iddynt ystyried eu dyfodol gyrfaol o fewn y Sir gan adnabod manteision y Gymraeg. Roedd y bobl ifanc yn canmol y gweithgareddau am roi cyfle iddynt drafod pwysigrwydd a hanes yr iaith a thrafod eu hagweddau tuag atynt.

Roedd yr Uwch Weithwyr Ieuenctid yn adrodd iddynt weld newid yn agweddau'r bobl ifanc ers cyflwyno'r adnoddau ac yn cadarnhau fod y gweithgareddau wedi addysgu yr aelodau o bwysigrwydd defnyddio a hyrwyddo'r iaith yn eu cymunedau. Roeddynt hefyd wedi synnu cymaint oedd ymwybyddiaeth eu haelodau o hanes Cymru a'r Gymraeg.

*ii)* *<u>Brwydr y Bandiau</u>*

Roedd rhaglen waith gwreiddiol HunanIaith yn cynnwys cynnal gornest sirol Brwydr y Bandiau yng Ngwynedd, ond gan mai ond un band o'r Sir gofrestrodd ar gyfer y gystadleuaeth, cytunodd y BBC i'r band yna fynd ymlaen yn syth i'r ornest ranbarthol.
Mae'r Gwasanaeth ieuenctid yn parhau i annog y gystadleuaeth yma yn y clybiau. Yn dilyn sesiynau sydd wedi eu cynnal yn y clybiau mae gobaith y bydd band o glwb Ieuenctid Caernarfon yn cystadlu flwyddyn nesaf sef 2013/2014
Yn dilyn hyn, ac mewn cytundeb gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Gwasanaeth Ieuenctid, penderfynwyd cynnal gweithgareddau cerddorol eraill er mwyn cyflawni'r targed mewn dull gwahanol. Ac felly, mewn cydweithrediad a Ciwdod a Cherdd Gymunedol Cymru, trefnwyd i gynnal sawl gweithdy roc yng nghlybiau Dyffryn Nantlle, Nefyn, Bethesda, Caernarfon ac Aberdyfi yn ystod mis Mawrth 2012
Yn dilyn gweithdai roc gan Cerdd Cymunedol yn y clybiau uchod yn ystod 2012 mae clwb Caernarfon yn parhau i gynnal sesiynau. Hefyd yn sgil hyn mae clwb Maesgeirchen a Phwllheli wedi cynnal sesiynau hyn ystod 2012/2013

<u>B) Siopau Un Stop</u>

DIG 2 Nifer a % swyddi'r ganolfan gyswllt neu siop-un-stop a ddynodwyd yn rhai "Cymraeg hanfodol" ac a lenwyd gan staff dwyieithog:

Lleolir Prif Dderbynfeydd y Cyngor yn y Pencadlys, Penrallt (Caernarfon), Neuadd y Dref (Bangor), Siop Gwynedd, Ffordd y Cob (Pwllheli), Penarlâg (Dolgellau)

| Nifer Staff | Siaradwyr Cymraeg (nifer a %) | Cymraeg Hanfodol (nifer a %) | Targed 2014 % |
|---|---|---|---|
| 13 | | 13 (100%) | 100% |

Y Ganolfan Gyswllt ym Mhenrhyndeudraeth sy'n ymdrin ag ymholiadau ffon, a nodir isod y manylion ynglŷn â sgiliau ieithyddol y staff:

Canolfan Gyswllt Penrhyndeudraeth

| Nifer Staff | Siaradwyr Cymraeg (nifer a %) | Cymraeg Hanfodol (nifer a %) | Targed 2010 % |
|---|---|---|---|
| 34 | 34 (100%) | 34 (100%) | 100% |

Dylid nodi'n ogystal fod yr Adran Gofal Cwsmer yn edrych i ymestyn y drefn fonitro cwynion drwy ddefnyddio system reoli galwadau cyfrifiadurol. Bydd y system yma'n caniatáu i ni adnabod cwynion ar sail iaith.

C) Canolfannau Hamdden: Cynllun Pencampwyr Iaith Canolfannau Hamdden y Fro Gymraeg

Fel y nodwyd yn ein Adroddiad Monitro blaenorol, derbyniwyd cyllideb gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, fel rhan o'r cynllun Gweithleoedd Dwyieithog i hyfforddi a datblygu Pencampwyr Iaith yng Nghanolfannau Hamdden y Fro Gymraeg. Fel rhan o'r cynllun darparwyd hyfforddiant i 13 o Bencampwyr Iaith Canolfannau Hamdden Gwynedd, golygai hyn bod gennym Bencampwyr Iaith yn ein Canolfannau i gyd yng Ngwynedd.

Bellach, mae swyddogaethau'r Pencampwyr Iaith wedi'u sefydlu, ac maent yn cynnwys:

- Cyfleu gwybodaeth i staff am ofynion iaith a materion yn ymwneud a'r Gymraeg
- Arwain trwy esiampl
- Cefnogi dysgwyr a siaradwyr Cymraeg dihyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Dros y cyfnod yn dilyn sefydlu'r prosiect, mae'r gwasanaeth wedi nodi'r manteision canlynol o safbwynt y gweithlu:

- Cynyddu ymwybyddiaeth iaith ymysg staff
- Meithrin arferion ieithyddol da yn y gweithle
- Cynyddu hyder staff i ddefnyddio'r Gymraeg
- Hybu datblygiad proffesiynol y staff a chynorthwyo'r sefydliad, drwy sicrhau cwrteisi ieithyddol a gofal cwsmer.

Bu manteision i'r Cyngor yn ogystal:

- Gwella'r gwasanaeth i'r cwsmer
- Cryfhau'r gwasanaeth i gwrdd â dyheadau'r cwsmer
- Cefnogi'r Cynllun Addysg Gymraeg

Ers i ni adrodd ar y cynllun fel rhan o'n Adroddiad Blynyddol 2011-12, mae'r Gwasanaeth wedi cadarnhau'r datblygiadau canlynol:

- Mae disgwyl i bob Pencampwr Iaith arwain ei dim drwy esiampl, cefnogi a mentora'r dysgwyr a siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn digwydd yn ddyddiol yn y Canolfannau Hamdden drwy ateb y ffôn, dechrau sgyrsiau, siarad ymysg staff, ysgrifennu negeseuon ac e-byst drwy gyfrwng Gymraeg. Yn ogystal mae pob cyfarfod staff bellach gydag agenda a chofnodion Cymraeg. Rôl y Pencampwyr Iaith yw sgwrsio, helpu, bod yn gyfaill a mentor i annog y dysgwyr/siaradwyr dihyder i siarad Cymraeg.
- Cyflwynir gwersi nofio, gymnasteg, tennis a.y.b. a gwersi ar gyfer ein hysgolion yn y Gymraeg a drwy hyn, mae'r Canolfannau'n atgyfnerthu Cynllun Addysg Gymraeg y Sir ac yn sicrhau cyfleoedd i blant a phobl ifanc cael dysgu'r gwersi drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Fel rhan o Gynllun Busnes a gwaith Tîm Technegol yr Uned, mae trefniant mewn lle i gynnal arolwg/awdit o sgiliau Iaith staff a defnydd o'r iaith Gymraeg yn y Canolfannau. Bydd hyn yn digwydd o leiaf dwywaith y flwyddyn drwy waith tîm o archwilwyr technegol o fewn yr Uned.
- Mae'r Gwasanaeth yn ymfalchïo fod y cynllun yma wedi gwella darpariaeth, ac anelir at welliant parhaus yn y defnydd o'r Iaith Gymraeg yn y Canolfannau

Hamdden er budd yr holl gwsmeriaid sy'n derbyn gwasanaeth a gweithgareddau i hybu "Byw'n Iach."

- Yn unol â'r ymrwymiad gwreiddiol, cyflwynwyd Adroddiad Cynnydd ar y prosiect i'r Pwyllgor Iaith ar 16/04/13

Ch) Cwynion yn Erbyn y Cynllun Iaith

Daw'r cwynion isod gan aelodau'r cyhoedd, Aelodau etholedig y Cyngor, aelodau staff ac adroddiadau monitro a dderbyniwyd gan Benaethiaid Gwasanaeth. Maent yn cynnwys:

- Cwynion yn erbyn y Cyngor ( gan gynnwys cwynion yn erbyn y sawl sy'n darparu ar ein rhan neu'n derbyn nawdd)
- Cwynion yn erbyn cyrff eraill

**CWYNION YN YMWNEUD A'R CYNGOR (GAN GYNNWYS TREFNIADAU PARTNERIAETH A 3YDD PARTI)**

| DYDDIAD | CWYN | YMATEB |
|---|---|---|
| **Mawrth 2012** | Cwyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â Chymraeg gwallus mewn llythyr a dderbyniwyd o'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol mewn ymateb i gŵyn arall | Yr Adran yn ymateb yn llawn i'r gwyn, gan ymddiheuro eu bod wedi tynnu'n groes a disgwyliadau'r Cynllun Iaith |
| **Ebrill 2012** | Cwyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â chalendr ail-gylchu dwyieithog, yn datgan dymuniad am i'r Gymraeg a'r Saesneg fod ar wahân | Yr Adran yn ymateb, gan dynnu sylw at ofynion cyhoeddi'r Cynllun Iaith |
| **Mai 2012** | Cwynion gan staff ynglŷn â'r Cyngor yn cylchredeg Holiadur Meddalwedd Gogledd Cymru, gyda'r Saesneg yn ymddangos o flaen y Gymraeg | Cynhyrchwyd yr holiadur gan Gyngor Dinbych, ond tynnwyd sylw staff Adnoddau Dynol a Thechnoleg Gwybodaeth at y disgwyl i'r Gymraeg ddod gyntaf yn unol â'r Cynllun Iaith |
| **Mai 2012** | Cwyn gan aelod o staff ynglŷn ag hysbyseb am Oruchwyliwr Amser Brecwast nad oedd yn nodi'r angen am sgiliau ieithyddol | Yr Adran Addysg yn ymchwilio'r gwyn, gan ddod i'r casgliad na ddefnyddiwyd y templed cywir: Gellir cadarnhau fod yna ddisgwyliadau ieithyddol ynghlwm a'r swydd |
| **Mai 2012** | Cwyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â gohebiaeth uniaith | Fel arfer mae'r llythyrau'n cael eu hanfon yn |

| | | |
|---|---|---|
| | Saesneg yn ymwneud a gwersi nofio | ddwyieithog, ond bu camgymeriad yn yr achos yma: Ail-ddyluniwyd y llythyrau fel fod y Gymraeg a'r Saesneg yn ymddangos gyda'i gilydd |
| **Mai 2012** | Cwyn gan aelod o staff fod Cynllun Seiclo'r Cyngor yn cynnwys linc at wefan uniaith Saesneg | Roedd y wefan yn gwbl ddwyieithog erbyn ei lansiad swyddogol: Serch hyn, gwnaethpwyd yn glir i'r Gwasanaeth na ddylid tynnu sylw at unrhyw wefan tan mae ar gael yn gwbl ddwyieithog |
| **Mehefin 2012** | Cwyn gan aelod o'r cyhoedd (Di-Gymraeg) ynglŷn â neges Gymraeg ar ei beiriant ateb | Mae Gwasanaethau Cymdeithasol a Tai yn edrych i mewn i'r gwyn ar hyn o bryd |
| **Mehefin 2012** | Cwyn gan Aelod ynglŷn ag arwyddion uniaith Saesneg ger y gwaith ar Siop-Un-Stop Derbynfa'r Pencadlys | Gosodwyd yr arwyddion Saesneg gan y cwmni sy'n ymgymryd â'r gwaith yn hytrach na'r Cyngor. Fe'u hatgoffwyd o'r gofyn yn y cytundeb i ddarparu arwyddion dwyieithog ac fe'u gorchmynnwyd i dynnu'r arwyddion |
| **Gorffennaf 2012** | Cwyn gan Gynghorydd ynglŷn a chyfarwyddid uniaith Saesneg ar groesfan newydd ar ffordd osgoi Porthmadog | Yr Uned Cefnffyrdd yn cadarnhau mai cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw'r mater yma, ac wedi anfon y gwyn ymlaen. Os na ddaw ymateb cadarnhaol, byddwn yn cyfeirio'r mater ymlaen at Gomisiynydd y Gymraeg |
| **Gorffennaf 2012** | Cwyn gan Gynghorydd ynglŷn â'r defnydd o'r term "gwastraff cŵn" (yn hytrach na "baw cŵn") ar finiau'r Cyngor | Ymateb gan Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn datgan mai dyma'r geiriad safonol |
| **Gorffennaf 2012** | Cwyn gan Gyngor Cymuned Llandwrog ynglŷn ag arwydd "Stop" wedi'i baentio ar lon | Yr Adran Reoleiddio yn datgan fod y rheoliadau cyfredol a'r geiriadur yn derbyn "Stop" fel y term Cymraeg |
| **Awst 2012** | Cwyn gan Gynghorydd ynglŷn â ffurflen Trwyddedu Digwyddiadau uniaith | Uned Gwarchod y Cyhoedd wedi cyfieithu'r ffurflen, ac yn derbyn ceisiadau arni. |

| | | |
|---|---|---|
| | Saesneg<br>(dogfen y Swyddfa Gartref heb fersiwn Cymraeg dynodedig) | Beth bynnag, nid yw'r Swyddfa Gartref wedi cytuno'n ffurfiol iddi, ac felly codwyd hyn gyda Comisiynydd y Gymraeg. Yn y cyfamser, gofynnir am arweiniad gan y Pwyllgor Iaith ynglŷn â defnydd diofyn o'r fersiwn (answyddogol) Gymraeg |
| **Awst 2012** | Cwyn gan aelod o staff bod y system hidlo negeseuon electronig mewnol yn uniaith Saesneg | Y Gwasanaeth Gofal Cwsmer wedi codi'r mater gyda'r cwmni ac yn ceisio datrys y broblem |
| **Awst 2012** | Cwyn gan aelod o'r cyhoedd nad oedd cwrs achrediad landlordiaid ar gael drwy gyfwng y Gymraeg | Y Cyngor yn talu am y gwasanaeth yma, ac er bod y gofyn i allu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi'i nodi yn y briff, ni fu galw am gwrs Cymraeg o'r blaen. Mae'r Gwasanaeth Tai wedi derbyn cadarnhad y bydd hyfforddwyr Cymraeg ar gael, a byddent yn ei gwneud yn glir bod modd derbyn yr hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg |
| **Awst 2012** | Cwyn ynglŷn â'r defnydd o enwau strydoedd Saesneg Mewn llythyr safonol ynglŷn ag ail-wynebu ffyrdd | Ymateb gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn cadarnhau mai arddel yr enwau Cymraeg yw'r disgwyl, ac yn ymddiheuro. Gweler hefyd yr Adroddiad a gyflwynir ar enwau lleoedd, strydoedd a thai |
| **Medi 2012** | Cwyn gan Gomisiynydd y Gymraeg ar ran aelod o'r cyhoedd na dderbyniodd gyfweliad drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â'i ddymuniad. Hefyd y Comisiynydd yn holi ein cydymffurfiaeth a'n gofynion recriwtio yn sgil y methiant yma | Yr Adran yn ymateb bod y person wedi cael cynnig gwasanaeth cyfrwng Gymraeg a bod lefel (cyfarfodydd, gohebiaeth) ac yn cadarnhau'r trefniant staffio: Swydd interim wedi'i llenwi gan ddysgwr, ond y Cyngor wedi ac yn cyfarch yr anghenion o safbwynt gloywi iaith. Yn dilyn trafodaethau gyda Swyddfa'r Comisiynydd, mae'r Adran yn llunio cynllun gwella. |

| | | |
|---|---|---|
| **Medi 2012** | Cwyn ynglŷn â Datganiad Dyluniad a Mynediad uniaith Saesneg ynghlwm a chais cynllunio o'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol i Barc Cenedlaethol Eryri | Yr Adran yn datgan eu bod wedi anfon cyfarwyddid i ddeunydd o'r fath gael ei gynhyrchu yn y Gymraeg a'r Saesneg, boed hynny'n gais mewnol neu'n waith ymgynghorwyr ar ran yr Adran |
| **Hydref 2012** | Cwyn fod Canolfannau Hamdden yn cyflwyno tystysgrifau nofio uniaith Saesneg. D.S. Nid y Cyngor sy'n gyfrifol am y tystysgrifau, ond yr Amateur Swimming Associoation (ASA): Mae'r Adran wedi bod yn pwyso am dystysgrifau dwyieithog ers cryn amser, heb lwyddiant hyd yma | Yr Adran bellach wedi derbyn cadarnhad gan yr ASA y bydd tystysgrifau dwyieithog ar gael o'r Pasg 2013 |
| **Hydref 2012** | Cwyn ynglŷn â ffurflen Dadleniad Cofnod Troseddol uniaith Saesneg yn cael eu hanfon allan | Mae'n debyg i'r camgymeriad yma ddigwydd am fod y ffurflenni ar fin cael eu newid, ac nad oedd cyflenwad digonol o'r fersiwn Cymraeg. Y sefyllfa wedi'i chywiro a chyflenwad Cymraeg digonol mewn stoc bellach |
| **Tachwedd 2012** | Cwyn ynglŷn â'r defnydd o'r ffurf "Caernarvon" ar arwydd ffordd ar bwys yr A55 | Y camgymeriad wedi'i gywiro |
| **Tachwedd 2012** | Cwyn nad yw peiriant parcio newydd yn rhoi cyfarwyddyd electronig drwy gyfrwng y Gymraeg | Y Gwasanaeth yn nodi fod y peiriannau'n cynnig newid a dewis iaith |
| **Tachwedd 2012** | Cwyn ynglŷn ag enwau Saesneg yn ymddangos ar fapiau cynllunio | Mapiau'n cael eu cynhyrchu gan y system GIS, ond bydd haen Gymraeg digonol ar gael yn fuan |
| **Ionawr 2013** | Cwyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â neges uniaith Saesneg ar beiriant ateb Amgueddfeydd ac Orielau Gwynedd | Ymddiheuriad gan yr Uned. Mae'n ymddangos mai problemau technegol achosodd i'r peiriant golli'r neges ddwyieithog a throsglwyddo'r alwad i BT |
| **Ionawr 2013** | Ymholiad gan Aelod ynglŷn | Wedi codi'r mater gyda'r |

| | | |
|---|---|---|
| | â busnesau gydag enwau ac arwyddion Saesneg yn derbyn nawdd grant gan y Cyngor | Uned Gyfreithiol, ymddengys na allwn orfodi enwau brand Cymraeg ac ni allwn osod amodau ar elfennau nad ydym yn eu hariannu. Fodd bynnag, yn dilyn hyn, bydd yr Adran Economi a Chymuned yn manteisio ar y cyfle i edrych ar sut i wella eu hamodau ieithyddol |
| **Ionawr 2013** | Cwyn gan Aelod na roddwyd sylw priodol i ofynion ieithyddol wrth lunio tendr ar gyfer cynnal ymgynghoriad ar y Gwasanaeth Hamdden | Ymateb gan yr Aelod Cabinet perthnasol yn sicrhau pob cymorth cyfieithu (Cyfieithu ar y pryd a chyfieithu dogfennau) i'r cwmni sy'n ymgymryd â'r gwaith |
| **Chwefror 2013** | Cwyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â gwallau iaith ar ffurflen Budd-dal/ Treth Cyngor i'r hunangyflogedig | Ymddengys yr anfonwyd ffurflen anghywir mewn camgymeriad. Ymddiheuro am hyn, ac anfon fersiwn gywir o'r ffurflen |
| **Chwefror 2013** | Cwyn gan Gyngor Cymuned Llanystumdwy ynglŷn â thestun drafft uniaith Saesneg ar gyfer byrddau dehongli treftadaeth a anfonwyd iddynt gan gwmni'n gweithio dan gontract i'r Cyngor | Yr Adran yn ymddiheuro, gan sicrhau'r Cyngor Cymuned y bydd unrhyw ddeunydd cyffelyb yn cael ei anfon yn ddwyieithog o hyn ymlaen |
| **Chwefror 2013** | Cwyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â derbynneb Saesneg am daliad ffi i'r Uned Gwarchod y Cyhoedd (er iddi ohebu drwy gyfrwng y Gymraeg) | Yr Uned yn ymddiheuro i'r unigolyn, gan sicrhau eu bod yn adolygu eu prosesau o safbwynt cydymffurfio a'r Cynllun Iaith |
| **Mawrth 2013** | Cwyn gan Aelod ynglŷn â chyflwyniad Saesneg ar Deithio Bywiog mewn cyfarfod Prosiect Bangor | Yr Adran yn ymddiheuro |
| **Mawrth 2013** | Cwyn gan Gyngor Tref Pwllheli ynglŷn â defnydd o'r fersiwn Cymraeg a Saesneg o "Stryd Penlan" ar arwydd gwyriad | Atgoffa'r Uned berthnasol o benderfyniad y Pwyllgor Iaith ym mis Hydref ynglŷn ag enwau strydoedd |
| **Mawrth 2013** | Cwyn ynglŷn â llythyr uniaith Saesneg yn rhybuddio | Y gwyn wedi'i chyfeirio at Ymgynghoriaieth; Disgwyl |

| | | |
|---|---|---|
| | preswylydd o wal beryglus | ymateb |

**CWYNION YN YMWNEUD A CHYRFF ERAILL**

| DYDDIAD | CWYN | YMATEB. |
|---|---|---|
| **Ebrill 2012** | Cwyn ynglŷn â gohebiaeth uniaith Saesneg gan Dim Rhaglenni Gwledig Llywodraeth Cymru | Adran Economi a Chymuned yn cysylltu â'r Tîm i fynegi eu siom |
| **Mehefin 2012** | Cwyn gan staff ynglŷn â chais gan CAFCASS am ohebiaeth ddwyieithog yn hytrach na Chymraeg | Y Swyddog wedi cysylltu â'r corff yn amlinellu gofynion Cynllun Iaith y Cyngor, ac yn disgwyl ymateb pellach |
| **Awst 2012** | Yr Adran Economi a Chymuned yn ysgrifennu at Dim Rhaglenni Gwledig Llywodraeth Cymru ynglŷn ag ansawdd Cymraeg llythyr a anfonwyd atynt gan y Tîm | Disgwyl ymateb gan Lywodraeth Cymru |
| **Awst 2012** | Cwyn gan aelod o staff ynglŷn â llythyr uniaith Saesneg gan Gyngor Gofal Cymru | Yr aelod staff yn derbyn ymddiheuriad a llythyr Cymraeg |
| **Hydref 2012** | 2 gwyn gan aelodau o'r cyhoedd ynglŷn ag arwyddion gwallus tu allan i siop B&M ym Mangor | Cyfeirio'r cwynion at Gomisiynydd y Gymraeg |
| **Hydref 2012** | Cwyn/ ymholiad ynglŷn â threfniadau recriwtio a chyfweld Cartrefi Cymunedol Gwynedd | Cadarnhau gofynion Cynllun Iaith CCG; peidio a mynd a'r ymholiad ymhellach, gan ei fod yn seiliedig ar adroddiad ail-law |
| **Tachwedd 2012** | Cwyn ynglŷn â darpariaeth ieithyddol Cyngor Cymuned Beddgelert (Cymraeg yn unig) | Esbonio bod Cynghorau Cymuned yn annibynnol o'r Cyngor, a chyfeirio'r unigolyn at Gomisiynydd y Gymraeg am ragor o wybodaeth |

O safbwynt cwynion yn erbyn Cynllun Iaith y Cyngor, gellir crynhoi tabl i) uchod fel a ganlyn, yn unol â dangosydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg

iii) DIG 6

| **Nifer Cwynion** | **% a ymdriniwyd â hwy** | **Ymdrîn yn ôl safonau corfforaethol** | **Targed 2013-14** |
|---|---|---|---|
| 31 | 100% | 100% | 100% |

## 4. Rheolaeth a Gweinyddiad y Cynllun

A) Trefniadau Trydydd Parti

i) Contractau Gofal Cymdeithasol

**Mudiadau Gwirfoddol**

| **Nifer** | **% wedi'u monitro** | **% yn cydymffurfio** | **% ddim yn cydymffurfio** |
|---|---|---|---|
| 25 | 88% | 65% | 35% |

**Darparwyr Gofal Cymunedol**

| **Nifer** | **% wedi'u monitro** | **% yn cydymffurfio** | **% ddim yn cydymffurfio** |
|---|---|---|---|
| 7 | 28% | 100% | - |

**Cartrefi Annibynnol**

| **Nifer** | **% wedi'u monitro** | **% yn cydymffurfio** | **% ddim yn cydymffurfio** |
|---|---|---|---|
| 26 | 50% | 80% | 20% |

12 Catref Mewnol – cael eu monitro dan yr Uned Ddarparu

**Gofal Cartref**

| **Nifer** | **% wedi'u monitro** | **% yn cydymffurfio** | **% ddim yn cydymffurfio** |
|---|---|---|---|
| 9 | 50% | 90% | 10% |

ii) a iii) Contractau sy'n darparu ar gyfer pobl ifanc a chontractau ar gyfer darpariaeth cyn oed ysgol

Mae Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Gwynedd wedi bod yn y broses yn ystod 2012/13 o baratoi Cynllun Comisiynu Cefnogi Teuluoedd a Rhiantu fel rhan o Gynllun Gweithredu Teuluoedd yn Gyntaf Gwynedd ar gyfer 2012 / 13.

Fel trefniant interim, defnyddiodd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Gwynedd ei ddyraniad o'r Gronfa Teuluoedd yn Gyntaf ar gyfer 2012 / 13 i gomisiynu gwasanaethau presennol Cymorth a'r gwasanaethau a gomisiynwyd yn ystod y cyfnod arloesi am **flwyddyn arall yn unig**. Y gobaith oedd y bydd hyn yn caniatáu digon o amser i'r trefniadau comisiynu newydd gael eu sefydlu, i roi sefydlogrwydd i ddarparwyr a rhoi parhad i ddefnyddwyr gwasanaeth presennol am flwyddyn arall.

Penderfynodd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc 'grwpio' gwasanaethau o amgylch y meysydd blaenoriaeth canlynol gydag un asiantaeth yn gyfrifol fel darparwyr arweiniol ar gyfer monitor cynlluniau oddi fewn i'w pecynnau:

**Blaenoriaeth 1:** Sefydlu Gwasanaeth Cefnogi Teuluoedd Gwynedd (Tîm o Amgylch y Teulu)

**Blaenoriaeth 2:** Darparu Gwell Cefnogaeth i Deuluoedd a Hyrwyddo Rhiantu Cadarnhaol (2a) Caban Bach Barnardos; 2b) Canolfan Integredig Plas Pawb)

**Blaenoriaeth 3:** Cefnogi Pobl ifanc i Gyflawni (Gwasanaethau Ieuenctid)

**Blaenoriaeth 4:** Hyrwyddo Iechyd a Lles Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd ( Swyddog Chwarae, Cyngor Gwynedd)

**Blaenoriaeth 5:** Hyrwyddo Cynhwysiad Cymdeithasol Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd (NYAS)

**Blaenoriaeth 6:** Cefnogi Plant a Phobl Ifanc Anabl a'u Teuluoedd - **Derwen**

**Mae'r cynlluniau hyn i gyd wedi eu monitor ac mae 100% yn cydymffurfio.**

## 5. Digonolrwydd Sgiliau Iaith Gymraeg

### A) Hyfforddiant Iaith ac Ymwybyddiaeth Iaith

Hyfforddiant yn y Gymraeg

Gweler isod adroddiad y Swyddog Datblygu Gweithlu ynglŷn â staff bu'n derbyn gwersi iaith yn ystod y cyfnod Ionawr - Rhagfyr 2012. Mae'r monitro'n digwydd pob 6 mis ac ni ddisgwylir adroddiad arall tan fis Gorffennaf.

**Hyfforddiant Iaith Gymraeg Staff Cyngor Gwynedd**
**Ionawr – Rhagfyr 2012**

| | Ionawr/ Gorffennaf 2012 | Awst/ Rhagfyr |
|---|---|---|

| | | 2012 |
|---|---|---|
| Cyfanswm Dysgwyr – pob safon | **56** | **52** |
| **Adrannau**<br>Addysg<br>Cyllid<br>Darparu a Hamdden<br>Economi ac Adfywio<br>Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Priffyrdd a Bwrdeistrefol<br>Rheoleiddio<br>Strategol a Gwella<br>Ymgynghoriaeth | **1**<br>**1**<br>**21**<br>**1**<br>**13**<br>**4**<br>**5**<br>**3**<br>**7** | **3**<br>**1**<br>**18**<br>**0**<br>**12**<br>**3**<br>**4**<br>**2**<br>**9** |
| **Darparwyr y Cyrsiau**:<br>• Tiwtor Mewnol: 2 ddosbarth yng Nghaernarfon (trwy'r cyfnod) ac un yn Nolgellau (tan Fehefin 2012)<br>• Prifysgol Bangor<br>• Prifysgol Aberystwyth<br>• Grŵp Llandrillo-Menai (Coleg Meirion Dwyfor/Coleg Menai)<br>• Nant Gwrtheyrn | | |
| **Cyrsiau Dwys Allanol (h.y. 3-5 diwrnod)**:<br>• Nant Gwrtheyrn<br>• Ysgol Ionawr Dolgellau (Prif. Aberystwyth)<br>• Ysgol Galan Bangor (Prif. Bangor)<br>• Ysgol Basg Conwy (PB)<br>• Ysgol Haf Bangor/Pwllheli/Yr Wyddgrug (PB) | **1**<br>**2**<br>**10**<br>**4**<br>**3** | 4 |
| **Cwrs Cymraeg yn y Gweithle – 3 diwrnod – pob lefel iaith**<br>***Ar y cyd gyda Chynghorau Sir Môn, Conwy, Fflint, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân, Cyngor Cefn Gwlad***<br>**Medi 2012** | **-----------** | **8** |
| **Gloywi Iaith**<br>**Cyrsiau hyd at 20 awr dros gyfnod o wythnosau**<br>**Cyfanswm:**<br>Coleg Menai Bangor/Coleg Llandrillo Dolgellau | **5** | **10** |
| **Gweithdai Mewnol hanner diwrnod**:<br>Cymraeg Clir<br>Treiglo<br>Amserau'r Ferf | | **1**<br>**1**<br>**1** |

**Monitro Cynnydd 2012**

Anfonwyd ffurflenni monitro cynnydd at y tiwtoriaid a'r rheolwyr llinell yng Ngorffennaf a Rhagfyr er mwyn nodi cynnydd y staff yn y Gymraeg ac unrhyw sylwadau perthnasol eraill yn ymwneud â'r dysgu. Roedd lle i dicio blychau :

- *Dim cynnydd mesuradwy*
- *Ychydig*
- *Llawer*

gyferbyn â *Gwrando a Siarad, Darllen ac Ysgrifennu*. Os na chafwyd sylwadau gan y rheolwr yna cymerwyd sylwadau'r tiwtor fel tystiolaeth.

Dyma'r canrannau - o'r dystiolaeth ddaeth i law:

| | Llawer | Ychydig | Dim cynnydd mesuradwy |
|---|---|---|---|
| Gorffennaf 2012 | 38% | 50% | 12% |
| Rhagfyr 2012 | 50% | 47% | 3% |

**Sylwadau:**

**Trosiant staff**

Mae niferoedd staff sy'n mynychu hyfforddiant iaith yn newid yn gyson fel mae staff yn mynd a dod am wahanol resymau.
Dyma'r sefyllfa ddiwedd Awst 2012:

| | | |
|---|---|---|
| **Nifer wedi eu tynnu oddi ar y rhestr** | - | **18** |
| Rhesymau : | | |
| Cyrraedd y nod | - | **2** |
| Gadael y Cyngor | - | **5** |
| Methu â chael dosbarth addas | - | **4** |
| Dros dro/cais Rheolwr | - | **7** |

**Lefelau Iaith CBAC – Rhagfyr 2012**
**Canran staff oedd yn mynychu gwersi ar y gwahanol risiau iaith**

**Mynediad**: Cwrs Mynediad 1 a 2, neu hanner cyntaf Cwrs Wlpan
**Sylfaen**: Cwrs Sylfaen neu ail hanner Cwrs Wlpan
**Canolradd**: Cwrs Canolradd neu'r Cwrs Pellach - cyfateb i safon TGAU
**Uwch**: Cwrs Uwch (1) Cwrs Meistroli (2)

| Mynediad | Sylfaen | Canolradd | Uwch |
|---|---|---|---|
| **27%** | **17%** | **29%** | **27%** |

**Gwobr Goffa Dafydd Orwig 2012/13**

Enwebwyd pedwar unigolyn ar gyfer y ddwy wobr y tro yma. Roedd y safon yn arbennig o uchel, felly penderfynwyd ar y gwobrwyo fel a ganlyn:

Gwobr Dechreuwyr:

- **Grace Bristow** – Therapydd Galwedigaethol wedi ei lleoli yng Nghaernarfon

Gwobr Croesi'r Bont:

- **Kate Wheatcroft** – Therapydd Galwedigaethol wedi ei lleoli yng Nghaernarfon

Derbyniodd y ddwy uchod dystysgrif a chopi o Fywgraffiadur Cymru.

<u>Gwobrau Cysur</u>:
Gan fod safon y ddau arall mor uchel, rhoddwyd tocynnau llyfrau iddynt:

- **Laura Grant** – Swyddog Amgylchedd, Ymgynghoriaeth Gwynedd
- **Jonathan Chapman** – Prif Beiriannydd, Ymgynghoriaeth Gwynedd

## <u>Y Fframwaith Iaith newydd – diweddariad, a Dangosyddion Lefelau Iaith CBAC</u>

Mae'r Tiwtor Mewnol wedi ail lunio'r Fframwaith Iaith er mwyn iddi gydymffurfio â lefelau iaith cydnabyddedig yn genedlaethol. (Nid yw wedi ei chyflwyno i'w gweithredu hyd yma.)

Fel cyd-ddigwyddiad ffodus, mae CBAC wedi ymateb i'r her o sut y gall gweithleoedd fesur safon iaith unigolion trwy gyflwyno Dangosyddion Iaith wedi eu seilio ar gamau cydnabyddedig dysgu Cymraeg i Oedolion - sef:

- Mynediad
- Sylfaen
- Canolradd
- Uwch
- Hyfedredd

Ddechrau 2013 cymerodd Cyngor Gwynedd ran mewn peilot i weld sut oedd hyn yn gweithio. Mae'n galluogi unigolion i sefyll prawf ar eu cyfrifiaduron mewn Darllen, Ysgrifennu, Gwrando a Siarad.

## <u>Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith</u>

Mae'r Cyngor eisoes wedi datblygu hyfforddiant Ymwybyddiaeth iaith i staff, ac yn ystod y cyfnod , darparwyd 2 sesiwn ar gyfer y Tîm Cyfiawnder ieuenctid. Rhaid cyfaddef fodd bynnag fod y nifer yma'n fethiant yn erbyn ein targed o 4 sesiwn y flwyddyn.

Er y pennwyd dyddiadau a lleoliadau ar gyfer 4 sesiwn, ni fu'r ymateb yn ddigonol i gyfiawnhau bwrw mlaen a'r gwersi. Yn amlwg, roedd hyn yn hynod o siomedig, ac yn ystod y cyfnod nesaf, bydd angen ail-ymweld a hyn drwy gysylltu â Phenaethiaid ac edrych ar rôl ymwybyddiaeth iaith yng nghyd-destun y gwaith ar ddatblygu rhaglen e-ddysgu newydd.

Dylid nodi fodd bynnag bod ymwybyddiaeth iaith yn rhan allweddol o'r broses anwytho staff.

## B) <u>Sgiliau Ieithyddol Staff</u>

Eleni eto, mae'r data ar sgiliau ieithyddol staff yn seiliedig ar gasglu gwybodaeth yn uniongyrchol o'r gwahanol Adrannau. Yn sgil sylwadau'r Comisiynydd ar ein hadroddiad blaenorol, gofynnwyd am wybodaeth fwy manwl eleni.

At y dyfodol, y gobaith yw y bydd y gwaith o osod lefelai iaith newydd (yn seiliedig ar fframwaith CBAC) yn erbyn swyddi ac yna adnabod sgiliau unigolion yn erbyn yr un lefelau'n arwain at system gorfforaethol a mwy cadarn. Bydd y drefn yma maes o law yn cyd-fynd a'n system adnoddau dynol a chyflogau integredig sydd dan drafodaeth ar hyn o bryd.

| GWASANAETH | UNED | ARDAL | NIFER | NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG |
|---|---|---|---|---|
| Addysg | Adnoddau | Arfon | 1 | 0 |
| | Anghenion Arbennig | Arfon<br>Dwyfor<br>Anhysbys | 10<br>1<br>12 | 0<br>0<br>0 |
| | Consortiwm Addysg | Arfon | 3 | 0 |
| | Cyflogau a Chontractau Ysgolion | Arfon | 5 | 0 |
| | Cymorth i Fyfyrwyr | Arfon | 2 | 0 |
| | Disgyblion a Chynhwysiad | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirion<br>Anhysbys | 10<br>1<br>3<br>25 | 0<br>0<br>0<br>0 |
| | Lles | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirion<br>Anhysbys | 4<br>1<br>3<br>3 | 0<br>0<br>0<br>0 |
| | Mynediad Adeiladau ac Arlwyo | Arfon<br>Dwyfor<br>Anhysbys | 4<br>1<br>1 | 0<br>0<br>0 |
| | Swyddfeydd Ardal Addysg | Arfon<br>Dwyfor<br>Anhysbys | 1<br>9<br>1 | 0<br>0<br>0 |
| | Trefniadaeth Ysgolion | Arfon<br>Meirion | 6<br>1 | 0<br>0 |
| | Uned Reoli | Arfon | 2 | 0 |
| | Ysgolion | Arfon<br>Dwyfor | 1,371<br>475 | 0<br>0 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Meirion<br>Anhysbys | 695<br>421 | 0<br>0 |
| Addysg Cyfanswm | | | 3,072 | 0 |

| GWASANAETH | UNED | ARDAL | NIFER | NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG |
|---|---|---|---|---|
| Adnoddau Dynol | Adnoddau Dynol a Datblygu'r Gyfundrefn | Arfon<br>Anhysbys | 5<br>1 | 0<br>0 |
| | Cefnogol | Arfon | 32 | 0 |
| | Dysgu a Datblygu | Arfon<br>Anhysbys | 15<br>1 | 0<br>0 |
| | Iechyd a Diogelwch | Arfon<br>Anhysbys | 10<br>5 | 0<br>0 |
| | Personél | Arfon<br>Anhysbys | 17<br>1 | 0<br>0 |
| | Uned Reoli | Arfon | 4 | 0 |
| Adnoddau Dynol Cyfanswm | | | 91 | 0 |

| GWASANAETH | UNED | ARDAL | NIFER | NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG |
|---|---|---|---|---|
| Cyllid | Archwilio Mewnol | Arfon | 12 | 0 |
| | Atal Twyll Budd Dal | Arfon | 4 | 0 |
| | Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys | Arfon | 3 | **1** |
| | Cyflogau | Arfon | 11 | 0 |
| | Cyfrifeg | Arfon<br>Anhysbys | 38<br>4 | 0<br>0 |
| | Cyllid | Arfon | 2 | 0 |
| | Pensiynau | Arfon | 15 | 0 |
| | Refeniw- Arianwyr | Arfon | 5 | 0 |
| | Refeniw- | Arfon | 9 | 0 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Incwm/Dyledwyr | | | |
| | Taliadau/Credydwyr | Arfon | 7 | 0 |
| | Refeniw- Trethi a Budd Dal | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirion | 38<br>17<br>12 | 0<br>0<br>**2 *** |
| | Rheolaeth Risg/Yswiriant | Arfon | 2 | 0 |
| | Uned Reoli | Arfon | 2 | 0 |
| Cyllid Cyfanswm | | | 181 | **3** |

| **GWASANAETH** | **UNED** | **ARDAL** | **NIFER** | **NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG** |
|---|---|---|---|---|
| Economi a Chymuned | Adfywio Cymunedol | Anhysbys | 4<br>2<br>2 | 0<br>0<br>0 |
| | Amgueddfeydd | Arfon<br>Dwyfor<br>Anhysbys | 6<br>3<br>1 | 0 |
| | Archifau | Arfon<br>Meirion<br>Anhysbys | 5<br>5<br>8 | 0 |
| | Cefnogi Busnes | Arfon | 9 | 0 |
| | Celfyddydau | Arfon<br>Anhysbys | 1<br>1 | 0 |
| | Celfyddydau Perfformio | Dwyfor<br>Meirion | 17<br>7 | 1 wrth gefn |
| | Ewrop | Arfon | 1 | |
| | Ieuenctid | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirion<br>Llawn Amser | 60<br>25<br>39<br>17 | 1<br>0<br>8<br>0 |
| | Morwrol | Dwyfor<br>Meirion<br>Anhysbys | 8<br>3<br>9 | 2 |
| | Orielau | Arfon | 1 | 1 rhan |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Anhysbys | 1 | amser |
| | Parciau Gwledig | Arfon | 6 | 0 |
| | Prosiectau Sylweddol | Arfon<br>Anhysbys | 5<br>3 | 0 |
| | Sgiliau a Mentergarwch | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirion<br>Anhysbys | 9<br>4<br>2<br>- | 0<br>0<br>0<br>- |
| | Strategaeth a Datblygu | Arfon | 4 | 0 |
| | Twristiaeth Marchnata a Gofal Cwsmer | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirion<br>Anhysbys | 13<br>4<br>4<br>12 | 0 |
| | Uned Reoli | Arfon | 3 | 0 |
| Economi a Chymuned Cyfanswm | | | 337 | 13 |

| **GWASANAETH** | **UNED** | **ARDAL** | **NIFER** | **NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG** |
|---|---|---|---|---|
| Gofal Cwsmer | Cyfathrebu | Arfon | 5 | 0 |
| | Cynllunio Argyfwng | Arfon | 3 | 0 |
| | Cyswllt Cwsmer | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirion<br>Anhysbys | 13<br>5<br>28<br>3 | 0<br>0<br>0<br>0 |
| | Eiddo | Arfon<br>Anhysbys | 23<br>1 | 0<br>0 |
| | Gwybodaeth | Arfon | 3 | 0 |
| | Llyfrgelloedd | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirion<br>Anhysbys | 38<br>9<br>18<br>10 | 0<br>0<br>0<br>0 |
| | Technoleg Gwybodaeth | Arfon | 46 | 1 |
| | Uned Reoli | Arfon | 2 | 0 |
| Gofal Cwsmer Cyfanswm | | | 207 | 1 |

| **GWASANAETH** | **UNED** | **ARDAL** | **NIFER** | **NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG** |
|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Comisiynu | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirion<br>Anhysbys | 21<br>13<br>19<br>19 | 0<br>0<br>0<br>0 |
| | Fflyd | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirion<br>Anhysbys | 9<br>7<br>5<br>9 | 0<br>0<br>0<br>0 |
| | Gwaith Bwrdeistrefol | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirion<br>Anhysbys | 104<br>71<br>79<br>75 | 0<br>0<br>0<br>0 |
| | Gwaith Priffyrdd | Môn<br>Arfon<br>Dwyfor<br>Meirion<br>Anhysbys | 4<br>27<br>19<br>34<br>34 | 0<br>0<br>3<br>0<br>0 |
| | Trin Gwastraff | Arfon<br>Meirion<br>Anhysbys | 2<br>13<br>5 | 0<br>3<br>0 |
| | Uned Rheoli | Arfon<br>Anhysbys | 3<br>1 | 0<br>0 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol Cyfanswm | | | 573 | 6 |

| **GWASANAETH** | **UNED** | **ARDAL** | **NIFER** | **NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG** |
|---|---|---|---|---|
| Rheoleiddio | Amgylcheddol | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirion<br>Anhysbys | 30<br>5<br>5<br>1 | 0<br>0<br>0<br>0 |
| | Bwyd Iechyd a Diogelwch | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirion<br>Anhysbys | 9<br>4<br>3<br>1 | 0.4fte<br>0<br>0<br>0 |
| | Canol Gwarchod y Cyhoedd | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirion<br>Anhysbys | 4<br>1<br>2<br>1 | 0<br>0<br>0<br>0 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cynllunio | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirion | 1<br>20<br>2 | 0<br>0<br>0 |
| | Llygredd a Difa Pla | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirion | 5<br>5<br>3 | 0<br>0<br>0 |
| | Safonau Masnach | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirion<br>Anhysbys | 9<br>3<br>9<br>1 | 0<br>0<br>0<br>0 |
| | Trafnidiaeth a Gofal Stryd | Arfon<br>Dwyfor<br>Anhysbys | 56<br>3<br>24 | 0<br>0<br>14 |
| | Trwyddedu | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirion | 2<br>1<br>1 | 0<br>0<br>0 |
| | Uned Rheoli | Arfon | 2 | 0 |
| Rheoleiddio Cyfanswm | | | 213 | 14.4 |

| **GWASANAETH** | **UNED** | **ARDAL** | **NIFER** | **NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG** |
|---|---|---|---|---|
| Ymgynghoriaeth | Uned Reoli | Arfon | 5 | 0 |
| | Ymgynghoriaeth dros dro | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirionydd | 29<br>4<br>2 | 7<br>1<br>1 |
| | Ymgynghoriaeth Parhaol | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirion | 76<br>8<br>14 | 10<br>1<br>2 |
| Ymgynghoriaeth Cyfanswm | | | 138 | 22 |

| **GWASANAETH** | **UNED** | **ARDAL** | **NIFER** | **NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG** |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Democratiaeth a Chyfreithiol | Cyfreithiol | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirion<br>Anhysbys | | 0<br>0<br>0<br>0 |
| | Cofrestru | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirion<br>Anhysbys | | 0<br>0<br>0<br>0 |
| | Cydymffurfio ac Iaith | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirion<br>Anhysbys | | 0<br>0<br>0<br>0 |
| | Uned Rheoli | Arfon | | 0 |
| Democratiaeth a Chyfreithiol Cyfanswm | | | [manylion i ddilyn] | 0 |

| **Gwasanaeth** | **Uned** | **Ardal** | **Nifer** | **Nifer ddim yn siarad Cymraeg** |
|---|---|---|---|---|
| Strategol a Gwella | Uned Reoli | Arfon | 4 | 0 |
| | Cynllunio Strategol | Arfon | 17 | 1 |
| | Rhaglenni | Arfon | 8 | 0 |
| | Gwasanaeth Democrataidd | Arfon | 16 | 0 |
| | Partneriaethau Môn a Gwynedd | Arfon )<br>Mon ) | 21 | 0 |
| | Gwella Perfformiad ac Effeithlonrwydd | Arfon | 10 | 0 |
| | Cefnogi Newid | Arfon | 1 | 0 |
| | Prosiectau | Arfon | 15 | 0 |
| Strategol a Gwella Cyfanswm | | | 92 | 1 |

| **GWASANAETH** | **UNED** | **ARDAL** | **NIFER** | **NIFER DDIM YN SIARAD** |
|---|---|---|---|---|

| | | | | CYMRAEG |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden | Uned Reoli | Arfon<br>Dwyfor<br>Anhysbys | 5<br>1<br>4 | |
| | Datblygu Chwaraeon | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirion<br>Anhysbys | 6<br>8<br>5<br>5 | 0<br>0<br>0<br>0 |
| | Hamdden | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirion<br>Anhysbys | 119<br>59<br>70<br>5 | 14<br>1<br>7<br>0 |
| | Cefnogi Pobl | Arfon | 3 | 0 |
| | Digartrefedd a Tai Cefnogol | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirion<br>Anhysbys | 18<br>3<br>4<br>9 | 1<br>0<br>0<br>1 |
| | Rhent a Rheolaeth Tai | Anhysbys | 1 | 0 |
| | Tai Sector Breifat | Arfon<br>Dwyfor<br>Meirion<br>Anhysbys | 8<br>8<br>6<br>1 | 0<br>0<br>1<br>0 |
| | | | | |
| *Gwasanaethau Cymdeithasol | | | | |
| Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden Cyfanswm | | | [i ddilyn] | [i ddilyn] |

* Cesglir y wybodaeth yma er mwyn adrodd i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Mehefin. Gobeithir felly y bydd y ffigyrau ar gael erbyn cyfarfod y Pwyllgor Iaith.

### 6. Prif-Ffrydio'r Gymraeg

A) <u>Prif-Ffrydio (Strwythurau a Chyfrifoldebau)</u>

Yn dilyn etholiadau Mai 2012, symudodd Cyngor Gwynedd i system Gabinet, ac o safbwynt prif-ffrydio'r iaith, mae'r iaith Gymraeg yn ffurfio rhan o faes gwaith un o'r Aelodau Cabinet. Dan y drefn newydd, gellir cadarnhau yn ogystal y sefydlwyd Pwyllgor Iaith er mwyn sicrhau modd i ganolbwyntio'n benodol ar faterion yr iaith Gymraeg Nid yn unig y mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am Gynllun Iaith Gymraeg y Cyngor (a'r Safonau arfaethedig) ond mae hefyd yn gweithredu fel corff ymgynghorol ar strategaethau hyrwyddo'r iaith Gymraeg o fewn y sir gan wneud argymhellion i'r Cabinet yn ôl yr angen.

Mae'r Cyngor yn parhau i sicrhau lle amlwg i'r iaith Gymraeg o fewn ein trefniadau asesu effaith cydraddoldeb statudol, a byddwn yn edrych ar gryfhau'r gofynion yma drwy'r system Gabinet newydd.

Rydym hefyd yn rhagweld y bydd gweithdrefn gadarn mewn lle er mwyn i'r Swyddogion Cydraddoldeb fonitro Rhaglen Waith y Cabinet, gan godi'r angen am asesiadau effaith cydraddoldeb ac iaith cyn gynted a phosib o fewn y cylch cynllunio polisi.

At y dyfodol, byddwn yn monitro effeithiolrwydd y trefniadau yma, ac yn eu haddasu a'u cryfhau un unol a'r gofyn.

B) <u>Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg</u>

Cyngor Gwynedd yw corff arweiniol a sefydliad lletyol Hunaniaith. Partneriaeth aml-asiantaethol yw Hunaniaith a ddaeth ynghyd i weithredu prosiectau a gosod cyfeiriad strategol ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd. Mae strwythur gweithredu Hunaniaith fel a ganlyn:

Grŵp Cyfeiriad Strategol
Grŵp Cynllunio Ieithyddol Cymunedol
Grŵp Gweithleoedd a Gwasanaethau Dwyieithog
Gweithgor Dylanwadu ar Ddefnydd Cymdeithasol Plant o'r Gymraeg

Mae 2 swyddog yn gyfrifol am gydlynu, gosod cyfeiriad a gweithredu rhaglen waith Hunaniaith, sef:

- Swyddog Hyrwyddo Iaith (a gyflogir yn uniongyrchol gan y Cyngor)
- Swyddog Datblygu Iaith Gwynedd (a gyflogir drwy grant Llywodraeth Cymru)

Mae Hunaniaith yn gweithredu nifer o brosiectau drwy Adrannau'r Cyngor gan fanteisio ar gyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg y tu hwnt i ofynion statudol, megis:

- Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd
- Blas ar Gymru (Prosiect i Deuluoedd sydd yn mynychu Canolfannau Hwyrddyfodiaid Gwynedd)
- Gweithdai roc a gweithgareddau ymwybyddiaeth iaith drwy'r Gwasanaeth Ieuenctid
- Cynnal ymgynghoriad ar y Gymraeg drwy Banel Trigolion Gwynedd

Mae Hunaniaith hefyd yn gweithredu'n gymunedol er mwyn meithrin agweddau cadarnhaol, cynyddu statws a hyder pobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau, megis:

- Cynnal stondin mewn nosweithiau rhieni i hyrwyddo manteision dwyieithrwydd
- Cynnal gweithgareddau Cymraeg i deuluoedd
- Arfogi cymunedau i weithredu o blaid y Gymraeg gan gynyddu gweithgarwch cymunedol
- Cydweithio gyda sefydliadau er mwyn cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg
- Gweithredu prosiect Magu Gwaith
- Cynnal cynhadledd Genedlaethol 'Dyfodol Cymunedau Cymraeg'

Mae Hunaniaith hefyd yn cydweithio gyda Swyddogion Iaith nifer o gyrff cyhoeddus sydd yn gwasanaethu yng Ngwynedd. Yn 2011/12, bu i Hunaniaith weithredu'r prosiect canlynol ar y cyd â hwy:

- Academi Datblygu Sgiliau Cymraeg i Reolwyr

Mae Cyngor Gwynedd wedi adnabod y Gymraeg hefyd fel blaenoriaeth o fewn Cynllun Strategol y Cyngor 2013-2017, a hunaniaith yw'r cerbyd ar gfyer gweithredu nifer o'r blaenoriaethau a adnabyddir ynddo.

## 7. Dadansoddiad o berfformiad

A) Ymarfer Da

i) Ymateb i ganlyniadau'r Cyfrifiad: Gwaith dadansoddi ar y data iaith gan Uned Ymchwil a Gwybodaeth y Cyngor; trefnu dwy seminar i drafod yr oblygiadau ieithyddol- un i Aelodau Etholedig ac un arall ar Ddyfodol Cymunedau Cymraeg wedi'i threfnu gan Hunaniaith a'i noddi gan Lywodraeth Cymru
ii) Datblygu trefniadau i sicrhau y rhoddir ystyriaeth i unrhyw effaith ieithyddol cyn cyflwyno adroddiad i Gabinet
iii) Adran gwasanaethau Cymdeithasol yn comisiynu arolwg o'u trefniadau comisiynu mewn perthynas â gofynion yr iaith Gymraeg
iv) Bwrw mlaen gyda gwaith y Pencampwyr Iaith o fewn y Gwasanaeth Hamdden
v) Adolygiad o amodau nawdd a grantiau'r Adran Economi a Chymuned mewn perthynas â'r iaith Gymraeg
vi) Newyddion Gwynedd ar-lein ar gael gydag adnodd i gyfieithu rhai geiriau er mwyn ehangu geirfa dysgwyr Cymraeg

B) Meysydd Blaenoriaeth

i) Ymateb i ofynion y Safonau Iaith.
ii) Datblygu ymateb strategol i'r dystiolaeth ddaw o ddata Cyfrifiad 2011
iii) Bwrw mlaen a'r Strategaeth Sgiliau Ieithyddol: Gosod lefelau newydd, adnabod sgiliau yn erbyn y lefelau newydd a'u cofnodi i bwrpas monitro
iv) Gwella ac ehangu ein trefniadau ar gyfer hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith

## 8. Cyhoeddi Gwybodaeth

Byddwn yn cyflwyno'r Adroddiad i Bwyllgor Iaith y Cyngor ac yna i Gomisiynydd y Gymraeg. Bydd y dogfennau yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD** | **Mehefin 27 2013** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Cynllun Iaith Gymraeg Cyngor Gwynedd** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Ymestyn cyfnod y Cynllun Iaith Presennol** |
| **AWDUR** | **Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Fel gŵyr y Pwyllgor, rydym mewn cyfnod o newid ar hyn o bryd fydd yn arwain maes o law at gynlluniau iaith yn cael eu disodli gan safonau yn ymwneud â'r iaith Gymraeg. Mae'r Comisiynydd Iaith wedi ysgrifennu at swyddogion iaith awdurdodau lleol i gadarnhau na fydd yn disgwyl i awdurdodau ddiwygio eu cynlluniau iaith, ond yn hytrach disgwylir iddynt barhau gyda'u cynlluniau presennol.

1.2 Fe ddiweddarwyd Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor yn 2010, i redeg am y cyfnod 2010-13. Yn sgil sylwadau'r Comisiynydd ymddengys mai'r ffordd orau ymlaen fyddai ymestyn tymor y Cynllun hwn hyd nes y disodlir y cynlluniau iaith gan y safonau newydd.

1.3 Yn y cyfamser byddwn yn parhau i roi sylw i berfformiad y Cyngor o dan y Cynllun, a'r cam nesaf fydd cyflwyno'r Adroddiad Monitro blynyddol i'r Comisiynydd. Bydd y Comisiynydd yn darparu ei ymateb i'r adroddiad ac fe'i cyflwynir i'r Pwyllgor hwn. Byddwn wedyn yn mynd ati i drafod targedau tymor byr a'r materion sydd wedi eu hadnabod fel rhai sydd angen sylw gyda'r Comisiynydd.

## 2. ARGYMHELLION

2.1.Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo ymestyn cyfnod y Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor hyd nes y daw'r safonau iaith i rym.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD** | **27 Mehefin 2013** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Rhaglen Waith y Pwyllgor Iaith** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Ystyried materion i'w cynnwys ar y Rhaglen Waith** |
| **AWDUR** | **Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith** |

**1. CEFNDIR**

1.1 Yn ei gyfarfod diwethaf, penderfynodd y Pwyllgor ddatblygu rhaglen waith ar ei gyfer. Isod ceir rhestr o faterion y gellid eu rhoi ar y rhaglen, gan gynnwys materion a godwyd yn y cyfarfod diwethaf:

- Adroddiad Monitro'r Cynllun Iaith
- Ymateb y Comisiynydd Iaith i'r Adroddiad Monitro
- Cwynion Iaith
- Ymateb i ymgynghoriad ar y Safonau Iaith arfaethedig
- Datblygu Safonau Iaith Cyngor Gwynedd
- Defnydd o'r Gymraeg gan drydydd parti sy'n defnyddio asedau'r cyngor
- Sgiliau iaith staff (amodau ynglŷn â dysgu'r Gymraeg ayb)
- Edrych ar y defnydd o'r Gymraeg oddi fewn i adrannau'r Cyngor yn eu tro
- Defnydd o'r Gymraeg yng Nghanolfannau Hamdden Bangor, Tywyn a Dolgellau
- Canolfannau Iaith - adroddiad cynnydd
- Materion i'w hystyried gan y Pwyllgor yn ei rôl ymgynghorol ar strategaethau hyrwyddo'r Iaith Gymraeg o fewn y sir

1.2 Gofynnir i'r pwyllgor ystyried yr uchod a hefyd awgrymu unrhyw faterion eraill yr hoffai ei gynnwys yn ei raglen waith. Bydd modd ychwanegu materion newydd ar unrhyw adeg wrth i faterion a blaenoriaethau newydd godi.

**2. ARGYMHELLION**

2.1. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a chymeradwyo materion i'w cynnwys yn ei raglen waith

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD** | **Mehefin 27 2013** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Cwynion Iaith** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Cyflwyno er gwybodaeth** |
| **AWDUR** | **Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith** |

**1. Cwynion yn erbyn y Cyngor**

1.1 Daeth un gŵyn i'n sylw ers yr adroddiad diwethaf:

| DYDDIAD | CWYN | YMATEB |
|---|---|---|
| Ebrill 2013 | Defnydd o'r enw 'Rhedyw Road' yn hytrach nag 'Ffordd Rhedyw' ar y system dilyn ceisiadau cynllunio. | Mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn dueddol o ddefnyddio beth mae'r ymgeisydd wedi ei gyflwyno. Pan fydd achosion yn dod i'r amlwg, maent yn eu cywiro ac yn ychwanegu'r enw Cymraeg i'r basdata. Mae'r enw wedi e'i wirio yn yr achos yma. |

**2. Argymhellion**

2.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth